Cyfeirnod y Pwyllgor: FIN(4) 01-13 – Papur 1

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Pwyllgor Cyllid

## Craffu Ariannol ar y *Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)*

**Papur i'w nodi: Memorandwm Ariannol**

| **Dyddiad y papur** | **5 Rhagfyr 2012** |
|---|---|

**Gwybodaeth Berthnasol**

***Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)***, 3 Rhagfyr 2012

***Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru), Memorandwm Esboniadol***, 3 Rhagfyr 2012

**Paratowyd y nodiadau briffio hyn gan y Gwasanaeth Ymchwil i'w defnyddio gan y Pwyllgor Cyllid.**

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Helen Jones o'r Gwasanaeth Ymchwil drwy ffonio**
**estyniad 8206**
**e-bost: helen.jones@cymru.gov.uk**

Research Service

**Cyfeirnod y Pwyllgor:** XXXXX

## 1. Cyflwyniad

Ar 21 Mawrth 2012, roedd Mick Antoniw AC yn llwyddiannus yn y balot i gyflwyno Bil Aelod yn ymwneud ag adennill costau triniaeth a gofal meddygol a roddir i gleifion yng Nghymru sydd â chlefydau sy'n ymwneud ag asbestos ac sydd wedi cael iawndal. Ar 16 Mai 2012, cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y gallai Mick Antoniw AC osod Bil ar sail y wybodaeth a ddarparodd cyn y balot. Ar ôl cynnal ymgynghoriad ym mis Mai 2012 ar ei gynigion ar gyfer deddfwriaeth, cyflwynodd Mick Antoniw AC y *Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)* [1] ar 3 Rhagfyr 2012. Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil hwn. Bydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystyried **egwyddorion cyffredinol** y Bil ac yn cyflwyno adroddiad arnynt erbyn 8 Mawrth 2013.

## 2. Dibenion

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae trin clefydau sy'n ymwneud ag asbestos yn costio o leiaf £2 filiwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru[2]. Yr egwyddor sy'n sail i'r Bil yw y 'dylai'r gost i bwrs y wlad o ddarparu gwasanaethau'r GIG gael ei hadennill oddi wrth y sawl sydd wedi achosi (neu yr honnir iddo achosi) y niwed a arweiniodd at yr angen am y gwasanaethau hynny'. Mae'r egwyddor hon eisoes yn sail i ddeddfwriaeth arall yn y DU[3]. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth gyffelyb y mae'r Memorandwm Esboniadol yn ei thrafod yn cyfyngu'r 'niwed' hwn i anafiadau, yn hytrach na chlefydau, sef yr hyn a geir yn y Bil.

## 3. Cynnwys y Bil

Mae'r Bil yn cynnig, mewn achosion lle mae taliad diogolledu eisoes wedi'i wneud i'r rhai sy'n dioddef clefyd sy'n ymwneud ag asbestos[4], bydd y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i adennill y costau mewn perthynas â chost y gofal a'r driniaeth ar gyfer clefydau sy'n ymwneud ag asbestos ar gyfer y GIG yng Nghymru oddi wrth gwmnïau yswiriant neu gyflogwyr. Bydd graddfa'r costau hyn yn cael ei gosod gan ddefnyddio tariff a gaiff ei phennu gan is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

Unwaith y caiff yr arian ei adennill, bydd yn mynd i Gronfa Gyfunol Cymru, er bod y Bil yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru 'roi sylw i ddymunoldeb' sicrhau bod swm sy'n cyfateb i'r hyn a ad-delir ar gael at ddibenion 'trin clefydau sy'n ymwneud ag asbestos, neu ddarparu gwasanaethau sy'n ymwneud â chlefydau o'r fath'[5].

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro sut y mae'r cynllun arfaethedig yn adeiladu ar y cynllun digolledu niwed personol presennol a weithredir ar sail y DU o dan *Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2003*. Caiff y cynllun presennol ei weinyddu gan yr Uned Adfer Iawndal yn yr Adran Gwaith a Phensiynau.

## 4. Goblygiadau ariannol y Bil

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys tri opsiwn posibl ar gyfer ystyried **sut** y byddai'r cynllun yn cael ei weinyddu a **chan bwy**.

- 2.i Yr Uned Adfer Iawndal yn yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gweinyddu'r cynllun (yr opsiwn a ffefrir).

[1] ***Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)***, 3 Rhagfyr 2012 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]
[2] ***Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru), Memorandwm Esboniadol***, paragraff 30, 3 Rhagfyr 2012 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]
[3] ***Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru), Memorandwm Esboniadol***, paragraffau 6-12, 3 Rhagfyr 2012 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]
[4] Caiff clefydau sy'n ymwneud ag asbestos eu diffinio yn y Bil fel: asbestosis, mesothelioma, canser yr ysgyfaint sy'n ymwneud ag asbestos a chlefyd plewrol anfalaen.
[5] ***Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)***, 3 Rhagfyr 2012, paragraff 16 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

- 2.ii Llywodraeth Cymru yn gweinyddu'r cynllun.
- 2.iii Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn gweinyddu'r cynllun.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd yr opsiwn a ffefrir (Opsiwn 2.i) yn peri **costau trosiannol o tua £97,500 yn 2013-14** a **chostau blynyddol o £29,000 ar gyfer y pedair blynedd dilynol**. Llywodraeth Cymru, yr Uned Adfer Iawndal, y Byrddau Iechyd Lleol, y cwmnïau yswiriant a'r cyflogwyr a fyddai'n gyfrifol am y costau hyn, ac fe'u nodir isod:

*Costau trosiannol*

Mae'r costau trosiannol yn 2013-14 yn cynnwys:

- **Ailddatblygu systemau gweinyddu presennol yr Uned Adfer Iawndal**. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio tua **£82,500** i gynnwys yr holl newidiadau angenrheidiol (gan gynnwys newid cyfrifiadau tariff awtomataidd, datblygu ffurflen casglu data electronig newydd a sicrhau y gwneir y taliadau perthnasol i Weinidogion Cymru)
- **Hyfforddiant ar gyfer staff** yr Uned Adfer Iawndal, Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Lleol ar sut i ddefnyddio'r system. Tybir y bydd hyn yn costio cyfanswm o **£5,000**.
- **Sicrhau bod cwmnïau yswiriant a chyflogwyr yn dod yn gyfarwydd** â gofynion y cynllun. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio **£10,000.**

*Costau blynyddol ar gyfartaledd*

Mae'r costau blynyddol rhwng 2014-15 a 2017-18 yn cynnwys:

- Costau prosesu a chostau ychwanegol i'r Uned Adfer Iawndal i reoli a monitro'r system. Tybir mai'r gost fydd tua £7,000 y flwyddyn.
- Costau gweinyddol i'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG mewn perthynas â darparu manylion y gofal a roddir i unigolion i'r Uned Adfer Iawndal. Amcangyfrifir mai'r cyfanswm fydd tua £10,000 y flwyddyn.
- Cost ychwanegol cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Tybir y bydd hyn yn costio £12,000 y flwyddyn i gyflogwyr neu yswirwyr.
- Y gost i gwmnïau yswiriant a chyflogwyr mewn perthynas â digolledu'r GIG ar gyfer rhoi triniaeth ar gyfer mesothelioma, a gyfrifir gan ddefnyddio system dariff safonol y GIG, sef cyfanswm o tua £2.01 miliwn y flwyddyn ar sail 80 o achosion yng Nghymru bob blwyddyn.

*Manteision blynyddol ar gyfartaledd*

Mae **costau adennill triniaeth y GIG hefyd yn fanteisiol** ac mae caniatáu 1% ar gyfer anghydfodau a materion eraill sy'n ymwneud â pheidio â thalu'r costau yn rhoi **incwm net wedi'i adennill o tua £2.01 miliwn** y flwyddyn.

*Mantais net rhwng 2013-14 a 2017-18*

Mae canlyniad tynnu'r costau blynyddol ar gyfartaledd o'r manteision blynyddol ar gyfartaledd yn rhoi **colled net blynyddol o £29,000 ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2014-15 a 2017-18**. Mae ychwanegu'r

costau trosiannol o £97,500 yn 2013-14 at y costau blynyddol ar gyfartaledd o £29,000 y flwyddyn (rhwng 2014-15 a 2017-18) yn rhoi **mantais net o -£213,500 ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd**.

Fel y nodir yn nhabl 1 isod, mae'r Memorandwm Esboniadol yn newid y costau a'r manteision hyn yn y dyfodol yn werthoedd presennol i roi **gwerth presennol net**[6] **o -£197,100 ar gyfer Opsiwn 2.i dros y cyfnod hwn o bum mlynedd**.

**Tabl 1: Tabl yn crynhoi costau ychwanegol Opsiwn 2.i - yr Uned Adfer Iawndal yn gweinyddu'r cynllun**

*£ (thousands)*

| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Total | NPV |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Welsh Government | 87.5 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 87.5 | 84.5 |
| CRU | 0.0 | 7.0 | 7.0 | 7.0 | 7.0 | 28.0 | 24.8 |
| LHB | 0.0 | 10.0 | 10.0 | 10.0 | 10.0 | 40.0 | 35.5 |
| Employers/ insurance companies | 10.0 | 2,020.6 | 2,020.6 | 2,020.6 | 2,020.6 | 8,092.4 | 7,180.5 |
| **Total cost** | **97.5** | **2,037.6** | **2,037.6** | **2,037.6** | **2,037.6** | **8,247.9** | **7,325.3** |
| **Total benefit (recovered income)** | **0.0** | **2,008.6** | **2,008.6** | **2,008.6** | **2,008.6** | **8,034.4** | **7,128.2** |
| **Net benefit** | **-97.5** | **-29.0** | **-29.0** | **-29.0** | **-29.0** | **-213.5** | **-197.1** |

Ffynhonnell*: Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru), Memorandwm Esboniadol*, paragraff 70, 3 Rhagfyr 2012 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

Er gwybodaeth: Mae costau Llywodraeth Cymru yn cynnwys £82,500 ar gyfer datblygu'r system a £5,000 ar gyfer hyfforddiant. Mae'r costau i ddatblygu'r system wedi'u seilio ar ragdybiaethau a amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol (paragraff 79). Pe bai angen gwneud llai o ddiwygiadau i'r system, byddai'r gost hon yn lleihau'n sylweddol

Mae'r Memorandwm yn nodi:

> Mae gan bob opsiwn werth presennol net negyddol, sy'n dangos bod costau'r ddeddfwriaeth arfaethedig i gymdeithas yn fwy na'r manteision ariannol. Mae'r NPV negyddol yn adlewyrchu costau pontio a chostau gweinyddol y cynllun. Er bod gan bob opsiwn NPV negyddol, mae (...) gorfodi'r parti atebol i dalu am gostau trin dioddefwyr mesothelioma yn ganlyniad tecach na gorfodi'r GIG i ysgwyddo'r costau.[7]

## 5. Y Prif Faterion

### *Defnyddio'r arian a adenillir*

Nid yw'r Bil yn rhagnodol ynghylch sut y defnyddir y costau meddygol a adenillir. Mae'r Bil yn nodi y byddai'r arian yn mynd i Weinidogion Cymru, ac mae'r Memorandwm yn nodi:

> **Mae Deddf 2003 yn nodi y dylai ffioedd y GIG a gafodd eu hadennill gael eu trosglwyddo i'r ysbyty neu'r ymddiriedolaeth ambiwlans a ddarparodd y driniaeth neu'r gwasanaethau perthnasol** (adran 162). **Mae'r dull hwn yn cael ei ystyried yn rhy ragnodol yng nghyd-destun y Bil hwn.** Yn hytrach na gwneud hynny, bydd y symiau sy'n cael eu hadennill yn cael eu dychwelyd i'w cadw gan Weinidogion Cymru. O fewn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol, byddai cais yn cael ei wneud am ddyraniad incwm ar gyfer y costau sydd wedi'u hadennill i Brif Grŵp Gwariant yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, ac am ddyrannu adnoddau i'r un Prif Grŵp Gwariant ar gyfer darparu gwasanaethau i ddioddefwyr asbestos a'u teuluoedd[8].

[6] Mae'r Memorandwm yn defnyddio graddfa ostyngol o 3.5% (paragraff 69), a gaiff ei chymryd oddi wrth Trysorlys EM, i wneud addasiadau ar gyfer chwyddiant *Green Book: Appraisal and Evaluation in Central Government*, Gorffennaf 2011 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]
[7] ***Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru), Memorandwm Esboniadol***, paragraff 121, 3 Rhagfyr 2012 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]
[8] ***Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru), Memorandwm Esboniadol***, paragraff 40, 3 Rhagfyr 2012 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**[Fy mhwyslais i]**

Er bod y Memorandwm yn nodi y gellir defnyddio'r costau a adenillir 'er budd cyffredinol dioddefwyr asbestos a'u teuluoedd', ni fydd gorfodaeth i hyn ddigwydd. Ar y pwnc hwn, mae adran 16 o'r Bil yn nodi.

> Rhaid i Weinidogion Cymru **roi sylw i ddymunoldeb** sicrhau bod swm sy'n cyfateb i'r hyn a ad-delir yn rhinwedd adran 2 yn cael ei ddefnyddio, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, at ddibenion trin clefydau sy'n ymwneud ag asbestos, neu ddarparu gwasanaethau sy'n ymwneud â chlefydau o'r fath.[9]

**[Fy mhwyslais i]**

## *Cyfanswm yr incwm net a adenillir*

Mae'r ffigur ar gyfer yr incwm net a adenillir yn y Memorandwm wedi'i **seilio'n gyfan gwbl ar edrych ar nifer yr hawliadau a setliadau mesothelioma a ragwelir** yng Nghymru; tybir y bydd 80 o achosion y flwyddyn[10]. Pan gaiff yr ystod lawn o glefydau sy'n ymwneud ag asbestos yn y Bil eu cynnwys, byddem yn disgwyl i'r incwm net a adenillir fod yn uwch. **Nid yw'r Memorandwm yn ei gwneud yn glir faint yn uwch y gellir disgwyl i'r ffigur hwn fod.**

Wrth ystyried yr incwm net a gaiff ei adennill drwy'r system, mae'r Memorandwm yn nodi bod costau triniaeth y GIG ar gyfer **11 o gleifion** a gafodd ddiagnosis o fesothelimoa yn amrywio o £6,870 i £52,035. Mae hwn yn sampl bach ac mae'r Memorandwm yn nodi y bydd **gwaith ymchwil ychwanegol** yn cael ei gomisiynu i ddatblygu **tariff o gostau** sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chlefydau sy'n ymwneud ag asbestos.

## Yr effaith ar gyflogwyr a chwmnïau yswiriant

Nid yw'n eglur pa asesiad a wnaed o'r mantais gyffredinol i drethdalwyr o gofio y gallai **cwmnïau yswiriant ymateb drwy gynyddu premiymau** i dalu am y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn.

Nid yw'n amlwg chwaith a yw asesiad o'r anawsterau posibl o ran adennill y costau gan gwmnïau ac yswirwyr sy'n gweithredu dramor wedi cael ei gynnwys yn y costau a'r manteision.

## *Costau gweinyddu*

Nid yw'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r costau gweinyddu yn opsiynau 2.i, 2.ii a 2.iii yn eglur. O gofio bod yr opsiwn a ffefrir yn arbennig o sensitif i gynnydd yn y gost o ailddatblygu system yr Uned Adfer Iawndal (£82,500), byddai'n ddefnyddiol cael gwybod ai hwn yw'r gost isaf neu'r gost uchaf.

[9] *Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)*, 3 Rhagfyr 2012, paragraff 16 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]
[10] *Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru), Memorandwm Esboniadol*, paragraff 68, 3 Rhagfyr 2012 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]